Gweiddi

# Tasg 1

(Craidd, eitem 3)

Sut mae'r 'tywydd anarferol' yn y darn yn bosib?

Weithiau, mae gwyntoedd cryf iawn yn codi pethau o'r ddaear ac yn eu cario nhw am filltiroedd yn yr awyr cyn eu gollwng nhw "fel glaw".

Ym Memphis Tennessee, America, yn 1857, er enghraifft, roedd hi'n bwrw nadroedd.

Yn Louisiana, America, yn 1896, roedd hi'n bwrw adar!

Yn Nhrefyclo, Powys, yn 1984, roedd hi'n bwrw pysgod!

Mae hyd yn oed sôn am fuwch yn syrthio o'r awyr unwaith – ond syrthio allan o awyren wnaeth hi. Dychmygwch y sioc o chwarae pêl-droed ar gae'r ysgol, ac yn sydyn, mae buwch yn disgyn o'ch blaen!

Mae llawer mwy o straeon diddorol ar y we – ewch i chwilio amdanyn nhw.